



Beth am chwarae?

- Defnyddiwch gonau neu farcwyr i greu ardal daro – 'ti'
- Defnyddiwch gonau neu farcwyr i greu tair ardal darged – y 'grin bytio'
- Bydd angen i'r plant geisio taro'r bêl fel ei bod yn glanio neu'n gorffen yn un o'r ardaloedd targed – ar y 'grin bytio'
- Bydd angen i'r plant greu eu rheolau eu hunain ar gyfer y gêm ond dylai pwyntiau gael eu sgorio ar sail sgîl ac nid lwc
- Gall y plant sgorio pwyntiau yn unigol, fel pâr neu fel grŵp





Geiriau allweddol

Pytio, hyd y swing = hyd yr ergyd

Tsipio, cyffwrdd â'r glaswellt wrth fynd = taro gwaelod y bêl

Anelu, cywirdeb, pwysu a mesur, cyffyrddiad, teimlad, sefydlog, alinio

'Tî' = ardal daro/ardal ddechrau, y 'grîn bytio' = yr ardal darged

Adnoddau

Marcwyr dros dro, conau, cylchoedd ac ati

Peli, ffyn pytio, ffyn tsipio ac ati

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- fod yr arwyneb yn ddiogel ac yn rhydd o rwystrau
- bod mynediad priodol ar gael i blant sy'n defnyddio cadair olwyn
- bod pawb sy'n cymryd rhan yn aros o leiaf 3m i ffwrdd wrth y plentyn sy'n taro'r bêl
- bod digon o le rhwng yr ardaloedd taro
- bod yr ardal chwarae wedi'i diffinio'n glir
- bod rheolau clir ar gael ar gyfer casglu'r bêl

Cyfleoedd i:

- weithio'n gyfrifol gydag ystod o offer
- dangos mwy o gywirdeb a rheolaeth ar bellter
- cydweithio ag eraill a pharchu confensiynau chwarae teg, cydraddoldeb ac ymddygiad priodol
- dechrau mireinio ac addasu tactegau, technegau a sgiliau a ddysgwyd eisoes, a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd newydd

Cwestiynau

- Sut gwnaethoch chi sicrhau eich bod chi a gweddill y plant yn eich pâr/grŵp yn ddiogel yn ystod y gweithgaredd hwn?
- Sut gallech chi ei wneud yn fwy diogel ond yn hwyl i'w chwarae o hyd?
- Pa reolau roeddech chi wedi helpu i'w creu?
- Pa reolau weithiodd yn dda yn eich barn chi?
- A oeddech chi'n chwarae'n deg?
- Sut gallech chi sicrhau bod pawb yn cadw at y rheolau wrth chwarae?
- Sut roeddech chi wedi sicrhau eich bod yn cadw'r sgôr yn gywir?

Newidiadau i'r gweithgaredd

Newidiwch y canlynol:

Lle

- maint yr ardal darged – ei gwneud yn fwy, ei gwneud yn llai, ei symud yn nes, ei symud yn bellach i ffwrdd

Tasg

- y modd y mae gwrthrychau yn cyrraedd yr ardal darged, pytio/tsipio
- y rheolau a natur y gêm, cymryd tro i ergydio

Offer

- yr offer a ddefnyddir – cyflwyno rhagor o rwystrau i'w hosgoi, e.e. 'pyllau tywod', 'dŵr' a 'choed'
- y peli – defnyddio peli a marcwyr llachar ar gyfer plant â nam ar y golwg

Popl

- nifer y plant ym mhob fîm
- y cymorth a roddir i blant â nam ar y golwg trwy ddarparu bydi i helpu'r plentyn i sefyll yn y man iawn neu i daro postyn y faner er mwyn iddo glywed y sŵn

